PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH

Adroddiad i'r Cynulliad 2002 - 2003

Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn un o bedwar o bwyllgorau rhanbarth y Cynulliad. Mae'n cynnwys Ceredigion a Phowys a'r ardal o Wynedd a oedd yn cael ei adnabod fel yr hen Feirionnydd.

2. Cymerodd Mick Bates yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor yn lle Delyth Evans ar gyfer y sesiwn a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2002. Bydd Cadeirydd newydd yn cael ei ethol ym mis Mai 2003. Dyma'r aelodau eraill: Nicholas Bourne, Cynog Dafis, Glyn Davies, Elin Jones a Kirsty Williams. Mae'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn Aelod ond nid yw fel arfer yn mynychu'r cyfarfodydd yn rhinwedd ei rôl fel y Llywydd. Cyfarfu'r Pwyllgor 3 gwaith rhwng mis Gorffennaf 2002 a Mawrth 2003.

Cylch Gwaith a Dull Gweithio

3. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2, swyddogaeth y Pwyllgorau Rhanbarth yw cynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â'u rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, a gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.

4. Mae'r Pwyllgor wedi datblygu dull gweithio agored a chyfranogol ac roedd pob un o'i gyfarfodydd yn gyhoeddus. Isod rhoddir crynodeb o'r eitemau yr ystyriodd y Pwyllgor. Mae wedi gwahodd nifer o gyrff allanol i gyfrannu i'w drafodaethau, er enghraifft: Partneriaeth y Canolbarth, Cyngor Sir Powys, disgyblion o'r Canolbarth a fu i Uwch-gynhadledd y Byd 2002 yn Johannesburg, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, Cyngor Sir Ceredigion, Ymlaen Ceredigion, Cyngor Gwynedd, TUC y Canolbarth, JW Greaves a'i Feibion Cyf, Blaenau Ffestiniog a'r Comisiwn Coedwigaeth, Aberystwyth.

5. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiwn "meic agored" ym mhob cyfarfod lle y gall y cyhoedd a chyrff lleol holi cwestiynau a rhoi eu barn i'r panel ac Aelodau'r Cynulliad ar y pynciau dan sylw.

6. Mae agendâu'r Pwyllgor yn adlewyrchu ei nod o gael cydbwysedd rhwng materion strategol ac ymateb i bryderon y cymunedau a gynrychiolir gan yr Aelodau. O ganlyniad trafodwyd amrywiaeth o eitemau ar faterion strategol ac eitemau sy'n ymateb i bryderon lleol.

Materion a ystyriwyd (o fis Gorffennaf - Ebrill 2003)

Dyddiad	**Lleoliad**	**Pwnc**
1 Tachwedd 2002	Y Drenewydd	Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn cymryd tystiolaeth lafar a chlywodd dystiolaeth gan: • Partneriaeth y Canolbarth ar ei weithrediaeth, ei amcanion a'i weithgareddau, • Cyngor Sir Powys, fel rhan o Adolygiad y Pwyllgor ar Chwaraeon • Disgyblion ysgolion y Canolbarth a fu i Uwch-gynhadledd y Byd 2002 yn Johannesburg. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gynnal sesiwn Holi ac Ateb a oedd yn trafod pynciau megis datblygu cynaliadwy, amrywiaeth o faterion ffermio gan gynnwys gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau, a gweithio o gartref.
24 Ionawr 2003	Llanbedr Pont Steffan	Cyfarfu'r Pwyllgor ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a chynhaliodd drafodaeth gyda'r Athro Keith Robbins, y Dirprwy Ganghellor, a Ben Allen, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, ynghylch ffïoedd dysgu ychwanegol a datblygu'r Brifysgol yn y dyfodol. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd drafod materion ynghylch Ysgolion Bach Gwledig yng Ngheredigion a chael cyflwyniad ar waith Ymlaen Ceredigion mewn perthynas â materion

		cynaliadwyedd yn y Canolbarth. Anogwyd y cyhoedd i holi cwestiynau a rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod.
14 Mawrth	Dolgellau	Clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan amrywiaeth o gyrff gan gynnwys materion sy'n effeithio ar Dwristiaeth Werdd gan Gyngor Gwynedd, blaenoriaethau ar gyfer ffyniant y Canolbarth yn y dyfodol gan TUC y Canolbarth, a dau brosiect ynni adnewyddadwy - y naill gan Gloddfeydd Llechi Llechwedd a'r llall gan y Comisiwn Coedwigaeth. Anogwyd y cyhoedd i holi cwestiynau a rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod.

Blaenraglen

7. Bydd y Cadeirydd newydd, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau eraill, yn datblygu rhaglen waith yn nhymor newydd y Cynulliad i sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn ddolen gyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau lleol yn y rhanbarth.

Casgliad

8. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn chwarae rhan bwysig wrth greu pont rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r bobl y mae'r pwyllgor yn eu cynrychioli. Mae dull gweithio'r Pwyllgor wedi datblygu gydol y flwyddyn gan symud i ffwrdd o'i rôl craffu. Yn awr mae'n cyfrannu i broses datblygu polisi'r Cynulliad ac yn canolbwyntio ar faterion o ddiddordeb lleol. Ymddengys bod yr Aelodau a'r cyhoedd yn credu bod y newid pwyslais yn beth da. Mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu'r cyfarfodydd ac wedi denu llawer o sylw gan y wasg leol. Gobeithir y bydd y dull gweithio hwn yn parhau yn y tymor newydd.

Mick Bates AC
Mawrth 2003